

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Skanda Vale Hospice

Dyddiad yr arolygiad:

11 a 12 Gorffennaf 2017

Dyddiad cyhoeddi: 13 Hydref
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf?.....	24
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	25
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	26
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o hosbis Skanda Vale ar 11 a 12 Gorffennaf 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwelwyd safonau uchel o ofal a thriniaeth, ac mae'r holl staff yn canolbwyntio ar ddarparu gofal a chymorth holistaidd sy'n canolbwyntio ar y claf. Nodwyd meysydd o arloesedd o ran dogfennau asesu penodol.

Canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau/rheoliadau ym mhob ardal, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dangosodd staff ddull gofalgarg a chwrtais iawn o ddarparu gofal a thriniaeth holistaidd
- Roedd yr amgylchedd o safon ragorol
- Roedd y cleifion a'u perthnasau yn hapus iawn â'r gwasanaethau a ddarperir yn yr hosbis
- Roedd y prydau bwyd a ddarparwyd yn yr hosbis yn flasus ac yn iach
- Roedd y rhyngweithiadau rhwng y staff a'r cleifion yn foesgar ac yn barchus
- Roedd llinellau atebolrwydd clir

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dealltwriaeth o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn narpariaeth y gwasanaeth
- Cyflwyno systemau i sicrhau diogelwch cleifion o ran y grisiau
- Gwerthuso'r polisïau a'r gweithdrefnau rheoli heintiau cyfredol sydd ar waith a rhoi archwiliadau rheoli heintiau ar waith
- Cynnal archwiliadau staff rheolaidd

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn o ran polisiau a gweithdrefnau penodol, arfarniadau staff, rheoli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac asesiadau cleifion. Gellir gweld mwy o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiad â'r rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Skanda Vale Hospice wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol yn hosbis Skanda Vale, Saron, Llandysul, Sir Gaerfyrddin, SA44 5DY.

Mae'r hosbis wedi'i gofrestru yn unol â'r amodau cofrestru canlynol:

Amod 1

Gall yr hosbis ddarparu gofal seibiant yn unig yn unol â'r datganiad o ddiben diweddaraf y cytunwyd arno gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Amod 2

Ni chaiff nifer y cleifion a gaiff eu lletya dros nos fod yn fwy na chwech.

Amod 3

Ni chewch ddarparu triniaeth i bersonau sy'n iau na 18 oed.

Amod 4

Rydych wedi'ch cofrestru i ddarparu gofal ar gyfer cleifion sydd wedi cael diagnosis o gyflwr sy'n cyfyngu ar eu bywydau naill ai mewn achosion lle na fydd unrhyw opsiynau triniaeth wellhaol pellach a/neu lle mae'r claf yn derbyn opsiynau triniaeth wellhaol ond mae'r prognosis yn ansicr ar eu cyfer.

Amod 5

Nid ydych wedi eich cofrestru i ddarparu gofal ar gyfer cleifion sydd angen y triniaethau canlynol arnynt:

Meddyginiaeth neu hylifau mewnwythiennol

Trallwysiadau gwaed neu gynhyrchion gwaed

Cymorth awyriadol mewnwthiol

Amod 6

Mae'r hosbis yn cael darparu gofal hosbis dydd bob dydd Mawrth a dydd Gwener.

Cofrestrwyd y gwasanaeth ar 27 Gorffennaf 2016.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff, sy'n cynnwys rheolwr nyrsys clinigol, dirprwy reolwr nyrsys clinigol, nyrsys cymwysedig, uwch staff gofal, staff cymorth, a lliaws o aelodau tîm sy'n rheoli ac yn gwneud gwaith gweinyddol.

Mae Skanda Vale yn darparu gwasanaeth gofal lliniarol sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer oedolion sy'n byw ag anhwylder sy'n cyfyngu ar fywyd.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd yr holl drafodaethau a gynhaliwyd â chleifion a chydag aelodau o'u teulu yn frwdfrydig ac yn gefnogol tu hwnt o'r gwasanaethau a ddarperir yn Skanda Vale. Roedd cleifion a'u perthnasau/gofalwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch. Rhoddwyd cyfleoedd iddynt roi adborth am eu profiad, trwy drafodaethau wyneb yn wyneb a holiaduron ar ôl yr ymweliad.

Roedd yr holl staff yn dangos caredigrwydd a thosturi wrth ymdrin â chleifion.

Mae Skanda Vale yn darparu cyfleusterau ardderchog ar gyfer cleifion a'u perthnasau. Mae pob ystafell wely wedi'i dodrefnu i safon uchel, ac mae gan rai ystafelloedd falconïau sydd â golygfeydd trawiadol o'r cefn gwlad amgylchynol.

Gwnaethom hefyd siarad â phedwar claf ac aelodau o'u teulu yn ystod yr arolygiad, a dychwelwyd dau holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

Mae'r gwasanaeth hwn yn 100% – ni allwn ofyn am well.

Mae'r staff yma yn bobl arbennig, hapus ac ystyriol, a dylid eu defnyddio fel templed ar gyfer staff ym mhob sefyllfa ofalu.

Rwyf wedi cael cynnig triniaethau amgen ac wedi profi rhai ohonynt, e.e. reiki, tylino ac ati.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Nod yr hosbis yw darparu gwasanaethau gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol. Gwneir hyn trwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys cymorth ac arweiniad gan y tîm amlddisgyblaethol.

Caiff help, cefnogaeth a chyngor eu darparu ar gyfer cleifion er mwyn iddynt allu rheoli eu hiechyd eu hunain a gwella'r ffordd y maen nhw'n rheoli eu symptomau. Roedd yr hosbis yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau therapi amgen a dulliau ymlacio i hybu lles corfforol, meddyliol, emosiynol a chrefyddol y cleifion.

Mae'r enghreifftiau o dechnegau amgen a ddefnyddir yn cynnwys reiki, myfyrdod, therapi sain, tylino, adweitheg, aromatherapi, homeopathi a chôr therapi, ymhlith pethau eraill. Diben pob un o'r therapiau hyn oedd hybu llesiant cleifion a'u cefnogi i reoli eu cyflyrau a'u symptomau.

Urddas a pharch

Trwy gydol yr ymweliad, gwelodd holl aelodau'r tîm arolygu y cleifion a'u perthnasau yn derbyn gofal mewn modd urddasol a chwrtais. Gwnaeth cleifion a'u perthnasau gadarnhau eu profiadau cadarnhaol i'r tîm arolygu, gan ganmol y staff am y gofal ystyriol ac urddasol yr oeddent yn ei gael. Roedd y cleifion yn gwisgo'u dillad eu hunain ac yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch pryd i godi yn y bore, beth i'w wisgo, gweithgareddau ar gyfer y dydd, lle i fwyta a phryd i noswyllo. Roedd anghenion ymataliaeth pob claf yn cael eu hasesu pan oeddent yn cyrraedd yr hosbis, ac roeddent yn cael cymorth parhaus yn ystod eu harhosiad seibiant yn yr hosbis.

Gwnaeth aelodau o'r tîm arolygu fwyta'u cinio gyda'r cleifion, y staff a'r perthnasau a chawsant brofiad cynnes, cyfeillgar a chynhwysol.

Roedd gan holl ystafelloedd y cleifion ystafell ymolchi gysylltiedig, ac roedd y rhain yn rhoi amgylchedd hyfryd i gleifion ymlacio a mynd o gylch eu bywydau bob dydd mewn modd anymwithgar. Gallai teulu a ffrindiau hefyd aros gyda'r cleifion yn eu hystafelloedd neu aros mewn adeilad cyfagos a oedd ar gael.

Roedd holl osodiad yr adeilad wedi'i ystyried yn drwyadl ac wedi'i gynllunio mewn modd a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion. Roedd lolfa fawr/ystafell fwyta a lolfa lai o faint ac ystafelloedd gweithgarwch ar gael. Roedd ystafell gylchol di-enwad hefyd ar gael i gleifion a pherthnasau. Y tu allan, roedd y gerddi wedi'u cynllunio'n chwaethus ac yn darparu lle hyfryd ar gyfer y bobl, lle gallent gerdded ac ymlacio.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Roedd yr hosbis wedi datblygu datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl o ran yr hosbis, ei ethos a'r gwasanaethau yr oedd yn ei gynnal.

Cawsom wybod bod perthnasau yn ymwneud â thrafodaethau ynghylch agweddau ar ofynion gofal cleifion mewn achosion lle roedd cleifion yn cael anhawster deall y wybodaeth yn llawn. Gwelsom mai ychydig iawn o wybodaeth ysgrifenedig oedd ar gael yn Gymraeg. Cynghorwn y dylai'r hosbis ystyried darparu mwy o ddeunydd ysgrifenedig dwyieithog gan fod canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn lleol ac yn yr ardal gyfagos o fewn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, a thrwy arsylwi ar staff yn cyfathrebu â chleifion a pherthnasau, gwelwyd bod yr holl staff yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio'u disgrisiwn ar bob adeg. Roedd swyddfeydd ac ystafelloedd dynodedig ar gael i'r staff siarad â chleifion a theulu pe bai angen iddynt gael trafodaethau preifat. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel a dan glo mewn ystafell ddynodedig i'r staff pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Cawsom wybod bod staff dwyieithog ar gael ar gyfer cleifion a oedd yn siarad Cymraeg.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd yr holl gynlluniau gofal ac asesiadau y gwnaethom edrych arnynt wedi'u haddasu at anghenion a gofynion cleifion unigol. Roedd yr asesiadau a welwyd wedi'u hysgrifennu gyda'r cleifion yn ganolog iddynt, ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y cleifion. Roedd yn amlwg o fewn y dogfennau bod cleifion a pherthnasau'n cael eu cynnwys. Roedd yr wybodaeth yn drefnus ac roedd yn hawdd dod o hyd iddi. Gwnaethom nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau o ran nodi a chofnodi'n benodol y risgiau o gwmpo, problemau yn ymwneud â'r croen, sepsis a phoen. Roedd yr holl feysydd hyn wedi'u nodi i ryw raddau mewn asesiadau eraill. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid nodi'r meysydd hyn yn benodol a'u cofnodi'n briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir y dylai'r gwasanaeth ddatblygu asesiadau penodol o ran cwmpadau, cyflwr y croen / manau pwyso, sepsis a phoen.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom staff yn darparu gofal a chymorth mewn modd a oedd yn hyrwyddo ac yn amddiffyn hawliau cleifion.

Gwelwyd staff yn amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ddarparu gofal neu wrth gynnal trafodaethau gyda chleifion a pherthnasau. Er enghraifft, roedd drysau i'r ystafelloedd yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei ddarparu, ac roedd staff bob amser yn curo ar ddrysau ystafelloedd cleifion cyn mynd i mewn.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd yr hosbis yn casglu adborth gan gleifion a pherthnasau ar bob cyfle posibl. Gallai cleifion roi adborth trwy gydol eu hamser yn yr hosbis. Ar eu diwrnod olaf yn yr hosbis, cyn mynd adref, roedd cleifion yn cael arolygon boddhad. Cawsom wybod bod canlyniadau arolygon boddhad cleifion yn cael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y sefydliad. Ar ôl ein hymweliad arolygu, cawsom gopi drafft o'r arolwg boddhad diweddaraf, a fyddai'n cael ei gyhoeddi maes o law yn yr adroddiad blynyddol. Gellir hefyd rhoi adborth ar-lein trwy wefan yr hosbis. Roedd straeon cleifion ac adborth cleifion hefyd ar gael ar [wefan](#) yr hosbis a thrwy ei dudalen Facebook.

Roedd systemau da ar waith i reoli cwynion. Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion, teuluoedd ac ymwelwyr am sut y gallent godi cwyn/pryder.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd y staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol ardderchog i gleifion ac yn cefnogi eu teuluoedd mewn modd holistaidd a chynhwysol.

Mae nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion. Gwelsom fod anghenion gofal, cymorth a thriniaeth cleifion wedi'u hasesu gan staff, ac roedd staff yn adolygu'r asesiadau hyn yn rheolaidd er mwyn hybu lles cleifion.

Gwnaethom nodi bod angen gwella rhai meysydd o'r asesiadau cleifion a oedd ar waith a'u gwneud yn fwy penodol. Mae angen adolygu a gwerthuso'r adnoddau sydd ar gael o ran offer argyfwng er mwyn darparu offer arbenigol pe bai claf, aelod o staff neu ymwelydd yn teimlo'n anhwylyd gyda chyflwr meddygol y gellir ei wella.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd asesiad risg a gwerthusiad wedi'u cynnal ar bob ardal o fewn yr hosbis. Cedwid pob drws mewn ardaloedd nad oedd ar gael i gleifion yn ddiogel a dan glo pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd pob aelod o staff yn cael cardiau allwedd electronig i agor drysau dynodedig megis drws y golchdy. Roedd yr holl sylweddau a deunyddiau glanhau yn cael eu cadw'n ddiogel a'r drysau dan glo. Roedd ffeiliau'n cynnwys gwybodaeth berthnasol a chyfredol o ran y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac roedd y rhain ar gael i unrhyw un.

Roedd gan yr hosbis amrywiaeth dda o offer a oedd yn ymwneud â gofal brys. Roedd tiwbiau anadlu, mygydau ocsigen ac ocsigen ar gael. Serch hynny, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw ddiffibriliwr awtomatig ar gael. Gwnaethom argymhell y dylai'r hosbis gael diffibriliwr, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion sydd angen triniaeth feddygol frys o ganlyniad i gyflwr nad oedd

wedi'i ddiagnosio'n flaenorol. Dylai'r hosbis hefyd ystyried y gallai'r datblygiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol hefyd olygu bod fwyfwy o gleifion, ymwelwyr a staff ar y safle, a gallai pob un o'r rhain gael budd o'r offer hyn pe bai argyfwng.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi bod ystafell wely pob claf ar y llawr cyntaf. Gellid cael mynediad at y llawr cyntaf naill ai mewn lifft neu drwy ddringo dwy res o risiau. Gwnaethom nodi y gallai rhai cleifion fod mewn risg bosibl o gwmpo i lawr y prif risiau os oeddent wedi'u drysu. Cawsom wybod bod cymorth a goruchwyliaeth ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer cleifion a oedd yn dangos arwyddion o ddryswch, ond mae'n bosibl na fydd hyn bob amser yn amlwg yn ystod yr asesiad cyntaf. Felly, rydym yn argymhell bod yr hosbis yn adolygu sut y gellid rheoli'r mynediad at y grisiau yn well er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn cael niwed na ragwelwyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth ystyried prynu diffibriliwr er mwyn darparu cymorth hanfodol mewn argyfwng er budd cleifion, staff ac ymwelwyr.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth werthuso sut y rheolir y grisiau er mwyn sicrhau diogelwch cleifion sy'n agored i niwed, sydd mewn perygl o gwmpo i lawr y grisiau.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Yn ystod ein hymweliad, canfuom fod yr hosbis yn lân, yn ddestlus ac yn daclus iawn. Roedd yr adeilad wedi'i ailwampio'n gyfan gwbl i safon uchel. Ni wnaethom aroglu unrhyw arogleuon annymunol. Roedd ystafelloedd cleifion yn cael eu glanhau bob dydd i safon uchel iawn. Gwelwyd archwiliadau glanhau, ac roedd y rhain yn cael eu cwblhau'n gynhwysfawr. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael, megis menig a gynau. Gwelsom staff yn golchi eu dwylo ar ôl bod mewn cyswllt â chleifion. Holwyd staff ynghylch pwysigrwydd golchi dwylo, a gwnaethant ddangos dealltwriaeth glir o bwysigrwydd hyn, yn enwedig o ran cleifion a oedd yn agored i gyflyrau meddygol.

Gwelsom yr ystafell olchi, ac roedd hon wedi'i chyflwyno a'i pharatoi'n dda er mwyn hyrwyddo safonau da o atal heintiau. Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dadheintio'n drylwyr. Darparwyd comedau ar gyfer cleifion oedd eu hangen, a byddai'r rhain yn aros gyda'r cleifion yn eu hystafelloedd dynodedig dros gyfnod eu hymweliad seibiant. Mae hyn yn hyrwyddo arfer da o ran rheoli ac atal heintiau.

Roedd matresi gwely'n cael eu dadheintio'n rheolaidd a gwnaed hyn bob amser pan fyddai'r cleifion yn gadael ar ôl eu cyfnod seibiant.

Nid oedd unrhyw ddata ar gyfraddau heintiau ar gael yn yr hosbis ar y pryd. Gwnaethom argymhell y dylai'r hosbis ddatblygu'r maes darparu gwasanaeth hwn er mwyn nodi cryfderau a gwendidau yn ei arfer ac amlygu tueddiadau posibl.

Nid oedd y biniau offer miniog a welwyd yn yr hosbis yn orlawn, ac roeddent yn cael eu storio a'u cadw'n briodol.

Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant o ran atal a rheoli heintiau. Roedd gan yr hosbis hefyd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith. Gwnaethom sylwi bod llawer o'r rhain yn hen ac angen eu hadolygu er mwyn sicrhau bod yr arfer gorau'n cael ei ddilyn.

Nodwyd nad oes gan yr hosbis bolisi a gweithdrefn nodwyddau dynodedig ar waith ar hyn o bryd. Argymhellwn fod yr hosbis yn datblygu'r polisiâu a'r gweithdrefnau craidd hyn er mwyn hyrwyddo arfer diogel ac effeithiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod y gwasanaeth yn dechrau cynnal archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd er mwyn hyrwyddo'r arferion gorau o ran atal a rheoli heintiau.

Rhaid i'r gwasanaeth ystyried datblygu systemau i gofnodi data ar gyfraddau heintiau.

Rhaid i'r gwasanaeth adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau sydd ar waith i atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod yr arfer gorau'n cael ei ddilyn.

Rhaid i'r gwasanaeth ddatblygu polisiâu a gweithdrefnau clir a chryno ar gyfer achosion lle y caiff pobl eu hanafu gan nodwyddau.

Maetheg

Yn ystod ein hymweliad, bu'r tîm arolygu yn eistedd gyda chleifion, staff a pherthnasau a chael cinio gyda'i gilydd. Roedd pawb yn credu bod y bwyd yn flasus ac yn iach. Roedd yr holl gleifion, perthnasau a staff yn gwerthfawrogi amserau bwyd gan eu bod yn gyfle i gymdeithasu. Roedd pob claf yn cael ei asesu o ran pa gymorth yr oedd ei angen arno i fwyta/yfed, a gwelsom staff yn cynorthwyo'r cleifion mewn modd digyffro, urddasol ac anymwithgar. Yn ystod yr asesiad, cofnodwyd hoffterau a chasbethau'r cleifion. Roedd troli bwyd yn cael

ei wthio i mewn i'r ystafell fwyta, a gweinwyd y bwyd ar unwaith. Roedd y staff i weld yn drefnus iawn ac yn rheoli'r amser bwyd yn effeithiol. Roedd maint y dognau bwyd yn dda. Cynigiwyd dewisiadau eraill i'r cleifion ar amserau bwyd os nad oeddent yn hoffi'r bwyd.

Rheoli meddyginiaethau

Nid oedd yr hosbis yn defnyddio Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan, ond roedd ganddo ei ddogfennaeth ei hun ar gyfer rheoli'r gwaith o weinyddu meddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Dangosodd y dogfennau meddyginiaeth a welwyd fod cofnodion yn cael eu cwblhau'n drwyadl ac yn gyson. Ni nodwyd unrhyw fylchau mewn cofnodion. Roedd y cofnodion yn dangos yn glir pa feddyginiaeth oedd wedi'i gweinyddu gan staff. Roedd y feddyginiaeth yn cael ei pharatoi gan fferyllfa leol yn y dref gyfagos. Ar hyn o bryd, roedd cleifion a oedd angen ocsigen yn dod â'u silindrau ocsigen eu hunain gyda nhw. Roedd yr hosbis wedi gosod pwyntiau a phibellau ocsigen, ond nid oedd yn defnyddio'r cyfleuster hwn eto. Gydag ehangiad arfaethedig gwasanaethau'r hosbis yn y dyfodol, cawsom ein hysbysu y byddai darpariaeth ocsigen yr hosbis ei hun yn cael ei defnyddio. Nid oedd unrhyw staff yn rhoi meddyginiaeth fewnwythiennol i gleifion ar hyn o bryd. Os oedd angen hyn, byddai'r hosbis yn cael cymorth gan staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Roedd yr holl gleifion yn cael eu hasesu er mwyn pennu a oeddent yn gallu hunan-weinyddu eu meddyginiaeth eu hunain yn ddiogel. Os credwyd y gallent, byddai meddyginiaeth y cleifion yn cael ei storio'n ddiogel yn eu hystafelloedd eu hunain mewn cabinetau dan glo. Byddai'r cleifion yn cael cymorth i sicrhau eu bod yn gweinyddu eu meddyginiaeth eu hunain mewn modd diogel ac effeithiol. Roedd pob cabinet meddyginiaeth arall yn cael ei storio mewn ystafell driniaeth dan glo. Gwnaethom nodi nad oedd yr hosbis yn monitro tymheredd yr ystafell lle y cedwid meddyginiaethau ar hyn o bryd. Gwnaethom argymhell y dylai hyn gael ei werthuso oherwydd gall meddyginiaethau penodol ddechrau pydru a dod yn llai effeithiol os yw'r tymheredd yn uwch na 25°C.

Roedd tair oergell ar y llawr cyntaf. Un oergell yn unig oedd yn cael ei defnyddio i storio meddyginiaethau. Nodwyd mai'r un thermomedr oedd yn cael ei ddefnyddio i gofnodi tymheredd yr oergelloedd i gyd. Argymhellwn fod thermomedrau dynodedig ar gyfer pob oergell er mwyn lleihau croes-heintio posibl. Dylai'r hosbis ystyried prynu oergelloedd sy'n benodol ar gyfer storio meddyginiaethau yn y dyfodol.

Nid yw'r cleifion yn yr hosbis yn gwisgo bandiau enw, ond mae arferion gofalus ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu hadnabod yn gywir a'u bod dim ond yn cael y feddyginiaeth a ddynodwyd ar eu cyfer.

Ni wnaethom weld unrhyw feddyginiaeth yn cael ei gadael heb neb ar ei chyfyl yn ystod ein hymweliad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gan bob oergell sy'n cynnwys meddyginiaeth thermomedr dynodedig.

Dylid dechrau monitro'r ystafelloedd lle y caiff meddyginiaethau eu storio bob dydd.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd cleifion yn gallu cael mynediad at yr holl gyfleusterau i gleifion heb rwystr. Roedd ardaloedd y staff wedi'u diogelu'n ddigonol i sicrhau diogelwch y cleifion yn yr hosbis. Cawsom wybod bod angen goruchwyliaeth gyson ar rai cleifion, o bryd i'w gilydd, oherwydd eu cyflyrau meddygol. Yn ystod adegau o'r fath, byddai staff ychwanegol yn cael eu rhoi ar ddyletswydd er mwyn cynorthwyo'r cleifion yn llwyr.

Yn ystod ein gwerthusiad o gofnodion cleifion, gwnaethom nodi nad oedd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu hystyried yn llawn fel cydran annatod o sicrhau bod gan gleifion y gallu dynodedig i gydsynio i gael gofal a thriniaeth. Nid oedd cleifion a oedd ychydig yn ddryslyd yn cael eu hasesu'n ddigonol, a nodwyd yr arfer hwn yn faes oedd angen ei wella.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth ddatblygu ac ystyried y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel cydrannau sylfaenol pob claf sy'n derbyn gofal a thriniaeth yn y lleoliad.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan yr hosbis ddigon o beiriannau codi, offer monitro, comodau a matresi lleihau pwysedd ar gael i ddiwallu anghenion pob claf. Roedd yr holl gyfarpar a welwyd yn cael ei gynnal a chadw i safon dda ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd dan contract. Roedd profion dyfeisiau cludadwy hefyd

yn cael eu monitro'n agos ar adegau rheolaidd. Mae pob gwely sy'n cael ei ddefnyddio yn yr hosbis yn electronig, sy'n caniatáu i gleifion addasu ei uchder a'i safle yn ôl eu dymuniad. Darperir matresi risg uchel gyda phob gwely er mwyn cynorthwyo wrth atal briwiau pwysu rhag digwydd.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Nid oedd yr hosbis yn defnyddio byrddau cipolwg ar statws cleifion¹. Oherwydd maint bychan yr hosbis, roedd y staff yn ymwybodol iawn o gyflyrau, anghenion a gofynion cleifion. Roedd bwrdd atgoffa ar gael gyda llythrennau blaen cleifion a'u hystafelloedd dynodedig.

Cawsom wybod bod cleifion â diagnosis o ddryswch/dementia neu gleifion a oedd yn dangos arwyddion o ddryswch/dementia yn cael mwy o oruchwyliaeth er mwyn sicrhau eu lles a'u diogelwch. Fel y nodwyd yn flaenorol, rhaid i'r hosbis sicrhau bod y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu hystyried ar gyfer pob claf, yn enwedig y rhai hynny â dementia neu'r rheini sy'n dangos arwyddion o ddryswch.

Roedd rheoli poen yn cael ei wneud mewn modd cyson. Roedd cleifion yn cael eu hasesu ar gyfer eu poen a meddyginiaeth yn cael ei darparu fel y rhagnodwyd. Roedd yr hosbis hefyd yn hybu defnyddio therapïau amgen i reoli poen er mwyn darparu cynllun rheoli poen cynhwysfawr a holistaidd ar gyfer cleifion. Defnyddiwyd therapïau megis tyliino, aromatherapi a reiki i hybu lles cleifion a mynd i'r afael â'r symptomau poen.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yr hosbis yn cynnal cyfarfodydd staff a digwyddiadau hyfforddi rheolaidd. Edrychwyd ar gofnodion o gyfarfodydd staff. Roedd yr hosbis bob amser yn ceisio bod yn arloesol a darparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer cleifion. Un maes arloesol o'r fath a welwyd oedd creu dogfen a oedd yn asesu lles cleifion yn benodol. Roedd yr asesiad dogfennol hwn yn galluogi cleifion i

¹ System rheoli cleifion weledol yw'r bwrdd cipolwg ar statws claf, sy'n dangos gwybodaeth bwysig am gleifion y gellir ei diweddu'n rheolaidd. Y nod yw gwneud gwybodaeth am gleifion yn glir ac yn hawdd ei deall i staff.

werthuso eu teimladau presennol o les yn uniongyrchol ac i ailasesu'r teimladau hyn ar ôl cyflwyniad ymyriadau penodol.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel i atal mynediad i bobl heb ganiatâd pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cofnodion cleifion yn dangos cysondeb a mewnbynnu parhaus. Roedd y cofnodion yn gyflawn ac yn rhoi darlun cywir a gwirioneddol o arhosiad seibiant cleifion yn yr hosbis.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn ategu'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Yn gyffredinol, gwelsom fod strwythurau rheoli, llinellau dirprwyo a llinellau atebolrwydd yn weledol yn yr hosbis. Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn Skanda Vale yn cael eu rheoli'n dda iawn ac roedd gan yr holl staff rheoli weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth. Rhoddwyd cleifion yn ganolog i'r holl benderfyniadau rheoli.

Roedd angen gwneud rhai gwelliannau, yn benodol o ran arfarniadau blynyddol staff a hyfforddiant mewn cyswllt â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff fod hyfforddiant da yn cael ei ddarparu a bod y rheolwyr yn mynd ati i reoli mewn modd agored a thryloyw yn yr hosbis.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Yn ystod ein diwrnod cyntaf yn y gwasanaeth, cawsom ein cyflwyno i'r dirprwy reolwr clinigol, a oedd yn gyfrifol am yr hosbis yn ystod y dydd. Roedd y dirprwy reolwr clinigol yn brofiadol tu hwnt ac yn gwybod llawer am ofalu am gleifion â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd. Rhoddwyd yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani inni mewn modd cynhwysfawr.

Cawsom ein hysbysu yn ystod ein hymweliad fod y gwasanaeth yn gobeithio ehangu yn ystod y flwyddyn i ddod. Y nod oedd darparu cyfnodau hirach o seibiant, gan gynyddu o'r ddarpariaeth pedwar diwrnod gyfredol. Roedd y gwasanaeth yn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn trwy sicrhau bod staff yn cael cymorth a hyfforddiant dynodedig er mwyn darparu'r gofal a'r cymorth gorau posibl ar gyfer cleifion.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd system dda a chynhwysfawr ar waith ar gyfer crynhoi a nodi cwynion a digwyddiadau. Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn dangos yn glir bod yr hosbis wedi dilyn ei brosesau ei hun ar gyfer ymdrin â phryderon/cwynion.

Edrychwyd ar lyfr damweiniau hefyd ac roedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ddamweiniau a damweiniau y bu bron iddynt ddigwydd. Roedd y llyfr damweiniau yn cael ei storio y tu ôl i ddesg y dderbynfa er mwyn atgoffa'r staff i gwblhau cofnod am ddamweiniau. Yn anffodus, nid hwn oedd y lle gorau i storio'r llyfr hwn gan fod gwybodaeth ynddo a oedd yn ymwneud â staff a chleifion. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwyr at y mater hwn a chafodd y llyfr ei adleoli mewn man mwy priodol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Cawsom wybod gan y staff bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n rheolaidd yn yr hosbis. Roedd y staff yn gallu gofyn am hyfforddiant penodol a oedd yn ymwneud â'u rolau. Yn ystod diwrnodau hyfforddi staff, byddai hyfforddiant arbenigol yn cael ei ddarparu fel y bo angen. Ar ôl ein hymweliad, darparwyd taenlen i ni o holl hyfforddiant y staff. Gwnaethom nodi rhywfaint o hyfforddiant penodol oedd ei angen ar staff er mwyn darparu'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer staff ar hyn o bryd o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roeddem yn credu bod hyn yn ofyniad hyfforddi hanfodol i'r staff sy'n gweithio yn yr hosbis.

Gwelsom fod cofnodion yn nodi nad oedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn amserol ar hyn o bryd. Argymhellwn fod pob aelod o staff yn cael arfarniad blynyddol mewn modd amserol a chyson.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod staff yn cael yr holl hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol.

Dylai'r holl staff gael hyfforddiant arbenigol o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Rhaid i'r holl staff dderbyn arfarniadau blynyddol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd arferion recriwtio cynhwysfawr ar waith. Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff a chanfod bod yr holl staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd geirdaon a cheisiadau swydd hefyd yn cael eu storio yn y ffeiliau. Roedd contractau gwaith hefyd ar gael ac wedi'u llofnodi gan y cyflogai. Roedd gan y nyrsys cymwys a oedd yn gweithio yn yr hosbis ddogfennau ar waith hefyd a oedd yn dangos eu statws cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad â rhybudd, sy'n golygu y gall gwasanaeth gael hyd at 12 wythnos o rybudd am yr arolygiad.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd y llyfr damweiniau a oedd yn cynnwys gwybodaeth breifat yn cael ei storio mewn lle cyhoeddus y tu ôl i ddesg y dderbynfa.	Golygai hyn nad oedd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei storio'n ddiogel.	Gwnaethom godi'r mater hwn gyda rheolwyr yr hosbis ar unwaith.	Llyfr damweiniau wedi'i symud a'i storio mewn man mwy priodol.

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Skanda Vale Hospice

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Argymhellir y dylai'r gwasanaeth ddatblygu asesiadau penodol o ran cwympiadau, cyflwr y croen / manau pwysu, sepsis a phoen.	8. Cynllunio a darparu gofal	<ul style="list-style-type: none">Mae offeryn asesu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i lunio o ran atal cwympiadau a bydd yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer darparu seibiant ym mis Medi 2017. Bydd pob claf a gaiff ei atgyfeirio i'r gwasanaeth yn cael ei asesu ar gyfer cwympiadau yn ystod ei asesiad cyntaf fel rhan o'i asesiad symudedd.Mae offeryn asesu ar gyfer poen eisoes ar gael, ond ni chaiff ei ddefnyddio'n rheolaidd. Bydd pob claf	Rheolwr Cofrestredig	Dechrau mis Medi 21017 Dechrau mis Medi 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>sy'n mynychu ar gyfer gwasanaethau dydd neu seibiant yn cael ei asesu ar gyfer rheoli poen o fis Medi 2017 ymlaen.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn adolygu ein hofferyn asesu poen i gyd-fynd â'n dogfennaeth sy'n canolbwyntio ar y claf, gan ymgynghori â thimau gofal lliniarol lleol a hosbisau eraill i oedolion er mwyn cynnwys y wybodaeth gyfredol a'r arfer gorau. • Byddwn yn rhoi asesiad cyflwr croen ar waith ar unwaith i'w ddefnyddio yn seibiant mis Medi fel mesur dros dro, hyd oni y byddwn yn datblygu ein hofferyn ein hunain, yn unol â'n hathroniaeth gyfredol o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. • Byddwn yn llunio asesiad man pwysu/cyflwr croen sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn unol â'r wybodaeth a'r arfer gorau cyfredol. • Byddwn yn cysylltu â'r tîm lleol ac 		<p>Diwedd mis Hydref 2017</p> <p>Dechrau mis Medi 2017</p> <p>Diwedd mis Hydref 2017</p> <p>Diwedd mis Hydref 2017</p> <p>11 Medi 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>yn cynnwys canllawiau lleol a NICE wrth ddatblygu'r asesiad o gyflwr y croen.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cysylltu â'r bwrdd iechyd lleol i ddilyn y llwybr sepsis ar gyfer ei adnabod yn y gymuned a chanllawiau NICE, gan ddefnyddio'r offeryn asesu cyfredol. • Bydd yr offeryn asesu ar gael i'w ddefnyddio yn ystod darpariaeth seibiant mis Medi, gyda siart lif hawdd ei dilyn gyda chamau gweithredu. • Byddwn yn darparu addysg ar gyfer holl aelodau'r tîm ar 'Think Sepsis', gan gynnwys adran yn llawlyfr y tîm i gyfeirio ati'n barhaus. 		Diwedd mis Hydref 2017
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
<p>Dylai'r gwasanaeth ystyried prynu diffibriliwr er mwyn darparu cymorth hanfodol mewn argyfwng er budd cleifion, staff ac ymwelwyr.</p> <p>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth werthuso sut y rheolir y grisiau er mwyn sicrhau diogelwch cleifion sy'n agored i niwed, sydd mewn perygl o</p>	<p>22. Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch</p> <p>12. Yr amgylchedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cysylltu â'r gymuned leol i fynd ati i brynu diffibriliwr cymunedol, a fydd yn cael ei osod mewn lleoliad allanol i'w ddefnyddio gan y gymuned gyfan. • Byddwn yn edrych ar opsiynau 	Rheolwr cofrestredig a'r Tîm Codi Arian Cymunedol	Diwedd mis Tachwedd 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>gwympo i lawr y grisiau.</p>	<p>4. Trefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng</p>	<p>ariannu ar gyfer prynu'r diffibriliwr mewn cydweithrediad â'r gymuned leol ac opsiynau ariannu grant eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn mynd ati ar unwaith i gyflwyno asesiad risg o ran diogelwch unigolion mewn cyswllt â'r grisiau i bob claf a gaiff ei dderbyn i gael gofal seibiant. Bydd pob cam gweithredu sy'n benodol i gleifion yn cael ei ddilyn yn ystod eu harhosiad yn yr hosbis. Byddwn yn mynd ati i gael arweiniad iechyd a diogelwch annibynnol ar reoli'r grisiau, gan edrych ar yr holl opsiynau i gadw ein cleifion yn ddiogel yn yr amgylchedd. 	<p>Rheolwr cofrestredig a rheolwr yr hosbis</p>	<p>Erbyn 11 Medi 2017</p> <p>Diwedd mis Tachwedd 2017</p>
<p>Argymhellir bod y gwasanaeth yn dechrau cynnal archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd er mwyn hyrwyddo'r arferion gorau o ran atal a rheoli heintiau.</p> <p>Rhaid i'r gwasanaeth ystyried datblygu systemau i gofnodi data ar gyfraddau heintiau.</p>	<p>13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae offeryn archwilio wedi'i ddatblygu at ddefnydd cyffredinol yn yr hosbis. Byddwn yn datblygu cylchred archwilio arfaethedig ar gyfer golchi dwylo a meysydd atal a rheoli heintiau eraill. 	<p>Rheolwr cofrestredig a'r Dirprwy Arweinydd Clinigol</p>	<p>Diwedd mis Hydref 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r gwasanaeth adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau sydd ar waith i atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod yr arfer gorau'n cael ei ddilyn.</p> <p>Rhaid i'r gwasanaeth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau clir a chryno ar gyfer achosion lle y caiff pobl eu hanafu gan nodwyddau.</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cynnal ein harchwiliad golchi dwylo cyntaf yn ystod y ddarpariaeth seibiant ym mis Hydref 2017. • Byddwn yn cysylltu â'r tîm atal heintiau lleol er mwyn cynnwys yr wybodaeth a'r arfer gorau cyfredol wrth ddiweddarau'r polisïau a'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. • Bydd system yn cael ei datblygu i gofnodi data ar gyfraddau heintiau, sy'n seiliedig ar systemau cyfredol a ddefnyddir mewn hosbisau eraill i oedolion yng Nghymru. • Byddwn yn cwblhau'r polisi drafft ar gyfer atal a thrin cysylltiad â firysau a gludir gan y gwaed ac yn gofyn i'r bwrdd ymddiriedolwyr ei gadarnhau. Bydd holl aelodau'r tîm yn cael eu hysbysu o'i gyflwyniad ac yn cael gwybod y bydd ar gael fel copi caled ac yn electronig. 		Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gan bob oergell sy'n cynnwys meddyginiaeth thermomedr dynodedig.</p> <p>Dylid dechrau monitro'r ystafelloedd lle y caiff meddyginiaethau eu storio bob dydd.</p>	15. Rheoli meddyginiaethau	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn prynu thermomedr oergell pwrpasol ar gyfer yr oergell feddyginiaeth yn yr ystafell glinigol a thermomedrau ystafell ar gyfer yr ystafell glinigol a phob ystafell wely gan fod meddyginiaethau hefyd yn cael eu storio yno pan fydd cleifion yn rheoli eu meddyginiaeth eu hunain. Byddwn yn cyflwyno cofnodion rheolaidd o dymheredd yr ystafell ar gyfer pob ystafell wely a'r ystafell glinigol yn ystod cyfnod seibiant ac yn profi'r tymheredd ar adegau gwahanol pan na fydd yr hosbis yn cael ei ddefnyddio. 	Rheolwr cofrestredig a rheolwr yr hosbis	Ar unwaith
<p>Rhaid i'r gwasanaeth ddatblygu ac ystyried y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel cydrannau sylfaenol pob claf sy'n derbyn gofal a thriniaeth yn y lleoliad.</p>	11. Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi trefnu sesiwn addysgol ar gyfer aelodau'r tîm yn ystod y Diwrnod Datblygu Proffesiynol nesaf ar 21 Medi 2017. Byddwn yn trefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth ffurfiol gyda'r bwrdd iechyd/awdurdod lleol ar gyfer holl aelodau'r tîm sy'n gweithio gyda chleifion ar raglen dreigl, gan ddechrau 	Rheolwr cofrestredig	<p>Ar unwaith</p> <p>Diwedd mis Rhagfyr 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gydag uwch aelodau'r tîm ac arweinwyr sifft.</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddwn hefyd yn cyflwyno ymwybyddiaeth o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel rhan o becyn hyfforddi gorfodol ar alluedd, cydsyniad a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Byddwn yn cysylltu â'r cyd-drefnydd lleol ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i roi polisi, gweithdrefnau a dogfennau perthnasol ar waith sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth bob claf yn ystod ei arhosiad seibiant yn yr hosbis. 		<p>Diwedd mis Rhagfyr 2017</p> <p>Ar unwaith</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod staff yn cael yr holl hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol.</p> <p>Dylai'r holl staff gael hyfforddiant arbenigol o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.</p> <p>Rhaid i'r holl staff dderbyn arfarniadau blynyddol.</p>	<p>25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol</p>	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn datblygu cronfa ddata o hyfforddiant ar gyfer aelodau'r tîm, a fydd yn cynnwys dyddiad cwblhau a'r dyddiad y bydd angen ei ddiweddarau. Rydym wrthi'n archwilio pecynnau e-ddysgu ar hyn o bryd ar gyfer modylau hyfforddi gorfodol, gyda'r 	<p>Rheolwr cofrestredig a'r Cydgysylltydd Adnoddau Dynol</p>	<p>Diwedd mis Hydref 2017</p> <p>Diwedd mis Rhagfyr 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>nod delfrydol o alinio'r hyfforddiant gyda phecyn dysgu gorfodol GIG Cymru gyfan.</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydym yn chwilio am gyllid ar hyn o bryd ar gyfer swydd Cydgysylltydd Clinigol Gwirfoddol a Hwylusydd Datblygu Tîm. Bydd deilydd y swydd hon yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei roi'n amserol a bod cofnodion cywir yn cael eu cadw o ran dyddiadau adnewyddu. Rydym wedi trefnu hyfforddiant ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer mis Medi 2017, gyda dilyniant ffurfiol ar raglen dreigl gyda'r bwrdd iechyd lleol / awdurdod lleol. Byddwn yn dechrau cyflwyno'r system arfarnu flynyddol ganol mis Medi 2017. Bydd pob aelod o'r tîm, gan gynnwys pob gwirfoddolwr sy'n gweithio o fewn y maes clinigol, yn cael arfarniad blynyddol. Bydd pob aelod o'r tîm wedi cael 		<p>Ionawr 2017</p> <p>Diwedd mis Rhagfyr 2017</p> <p>Diwedd mis Medi 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		dyddiad ei arfarniad erbyn 30 Medi 2017.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Catherine Thompson

Swydd: Arweinwyr Clinigol a Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 3 Medi 2017